# Cynllun Gwella Ysgol

## 2025 – 2026

### Crynodeb (Medi 2025)

**Ysgol Gynradd**

# Gwaelod y Garth

**Primary School**

## Hunan-werthuso’r ysgol: Crynodeb

<table>
<tr><th>Cryfderau</th><th>Meysydd i’w datblygu</th></tr>
<tr><td>MA1 – Addysgu a Dysgu<ul><li>Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu herio'n briodol ac mae disgwyliadau uchel o gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion.</li><li>Mae’r rhan fwyaf disgyblion yn dangos lefelau priodol o fedrau mewn llythrennedd, rhifedd, chymhwysedd digidol a’r Gymraeg (iaith gyntaf ac ail-iaith) ac yn gyffredinol yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ac o fewn gwersi.</li><li>Mae cyfleoedd a chyd-destunau dysgu yn ystyrlon ac yn ddiddorol i ddisgyblion yn y rhan fwyaf o wersi.</li><li>Mae bron pob disgybl yn ymgysylltu'n dda â thasgau dysgu ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, gyda llawer yn eiddgar ac yn llawn cymhelliant. Mae bron pob disgybl yn annibynnol yn eu dysgu, gan gynnwys o oedran ifanc.</li><li>Mae’r amgylchedd ddysgu yn gefnogol ac mae perthnasau rhwng oedolion a disgyblion ac ymhlith yn gefnogol iawn.</li><li>Mae nodau clir wedi'u cofnodi ar gyfer pob tasg gyda'r nifer fwyaf o lyfrau gan gynnwys meini prawf llwyddiant pwrpasol er mwyn helpu i gwblhau'r nod. Rhoddir adborth briodol i ddisgyblion er mwyn symud y dysgu yn ei flaen.</li></ul></td><td><ul><li>Darparu cyfleoedd ychwanegol llafar Cymraeg (iaith gyntaf ac ail-iaith) er mwyn codi hyder a safonau</li><li>Datblygu systemau tracio mwy soffistigedig er mwyn lleihau ymhellach nifer y disgyblion is eu medrau darllen</li><li>Sicrhau defnydd cyson o addysgeg effeithiol er mwyn i bob disgybl gwneud y cynnydd gorau posib ym mhob gwers</li><li>Cynyddu profiadau dysgu awyr agored er mwyn hyrwyddo lles a hybu profiadau cwricwlaidd ystyrlon.</li></ul></td></tr>
<tr><td>MA2 – Lles, Gofal, Cymorth ac Arweiniad<ul><li>Mae’r ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol a safonol i ddisgyblion o fewn amgylchedd lle rhoir flaenoriaeth i les pob disgybl a lle bo disgyblion yn ddiogel.</li><li>Mae presenoldeb bron pob un o ddisgyblion yn dda iawn ac mae cefnogaeth yn ei le i gefnogi lle bo angen.</li><li>Dangosir lefelau uchel o barch ac ymddygiad gan bron pob un o’r disgyblion ac mae ymdeimlad cryf o berthyn a chymuned. Mae llais disgyblion yn gryf yn yr ysgol a darperir gyfleoedd arwain yn strategol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn arweinwyr cryf.</li></ul></td><td><ul><li>Datblygu Dulliau Adferol ymhellach, gan gynnwys hyfforddi cyfoedion</li><li>Ystyried a oes rhagor y gellir wneud i leihau’r bwlch tlodi</li><li>Sicrhau y presenoldeb gorau posib i bob disgybl</li><li>Datblygu arferion sy’n dathlu amrywiaeth ymhellach</li></ul></td></tr>
<tr><td>MA3 – Arwain a Gwella<ul><li>Mae arweinwyr yr ysgol, ar bob lefel, yn effeithiol wrth osod gweledigaeth glir ac wrth ddatblygu diwylliant ac ethos cynhwysol ar draws yr ysgol a’r gymuned ehangach.</li><li>Rheolir adnoddau yn effeithiol er mwyn datblygu meysydd i’w gwella, mynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol ac er mwyn sicrhau bod disgyblion yn dysgu’n effeithiol ac yn gwneud cynnydd.</li><li>Mae prosesau hunan-werthuso yn effeithiol ac yn arwain at welliant strategol.</li><li>Mae’r Llywodraethwyr yr ysgol yn effeithiol yn eu rolau ac yn flaengar wrth ddarparu cymorth a her.</li></ul></td><td><ul><li>Sicrhau bod systemau tracio ac asesu mor effeithiol ac sydd yn bosib, gan gydweithio ag ysgolion eraill</li><li>Datblygu ymhellach rolau arweinwyr canol ac uwch ac ymateb i newidiadau i strwythur uwch-arweinwyr yr ysgol</li></ul></td></tr>
</table>

## Gwerthuso Cynllun Gwella Ysgol 2024-25

| Blaenoriaeth | Gwerthusiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1: Cwricwlwm:** Parhau i wreiddio Cwricwlwm i Gymru ym mhob agwedd o ddysgu ac addysgu ar draws yr ysgol gan ddyfnhau'r dysgu trawsgwricwlaidd, hybu amrywiaeth a sicrhau defnydd effeithiol o fframweithiau statudol CGM a ACRh. | • Cynnydd ym mhrofiadau a chynllunio trawsgwricwlaidd, yn enwedig yn llythrennedd.<br>• Continwa dysgu y Dyniaethau a Iechyd a Lles wedi'u diweddaru ac yn effeithiol wrth ddiwallu disgwyliadau'r fframwaith CGM ac ACRh. Cynnydd yn hyder staff wrth gynllunio'r rhain.<br>• Model effeithiol i dracio cynnydd a chyrhaeddiad Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Mathemateg a Rhifedd wedi'i sefydlu.<br>• Staff yn fwy hyderus yn eu dealltwriaeth o'r Pedwar Diben ac yn effeithiol wrth annog priodweddau'r 4 Diben. |
| **Blaenoriaeth 2: Addysgeg:** Mireinio addysgu a dysgu trwy ddefnyddio addysgeg effeithiol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd gorau posib. | • Addysgeg effeithiol ar waith sydd yn hybu cynnydd dysgwyr a staff wedi derbyn hyfforddiant mewn meysydd allweddol.<br>• Y rhan fwyaf o ddysgwyr yn fwy effeithiol wrth drafod ac myfyrio ar eu gwaith er mwyn cymhwyso eu dysgu yn effeithiol.<br>• Y rhan fwyaf o staff yn effeithiol ac yn gyson wrth ddefnyddio addysgegau effeithiol, gan gynnwys wrth ymateb i waith er mwyn hybu cynnydd. |
| **Blaenoriaeth 3: Lles a Chynhwysiant:** Adeiladu ar y ddarpariaeth lles cryf sydd eisoes yn bodoli trwy gyflwyno dulliau adferol yn strategol ar draws yr ysgol a chyflwyno addysgedau cynhwysol sydd yn cefnogi grwpiau o ddysgwyr bregus. | • Dulliau Adferol wedi'u cyflwyno'n strategol; staff a disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio egwyddorion adferol.<br>• Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gynyddol yn trafod eu hemosiynau a'u hanghenion gan ddefnyddio iaith priodol.<br>• Ardal pwrpasol i feithrin sgiliau gydol oes ar gyfer disgyblion ac ADY wedi'i sefydlu ac yn effeithiol.<br>• Staff â gwell ymwybyddiaeth o anghenion disgyblion mwyaf bregus o ran tlodi. |
| **Blaenoriaeth 4: Llafar a Darllen:** Adeiladu ar yr arferion da sydd yn bodoli eisoes er mwyn datblygu'r ddarpariaeth a'r profiadau llafar a darllen ar draws yr ysgol er mwyn codi safonau llafar a darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. | • Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafaredd a darllen Cymraeg a Saesneg a safonau llafar a darllen yn dda ar draws yr ysgol.<br>• Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch o'u Cymreictod; llwyddiant wrth ennill gwobr Aur y Siarter Iaith.<br>• Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol a ffurfiol.<br>• Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus i siarad a pherfformio'n gyhoeddus. |
| **Blaenoriaeth 5: Arweinyddiaeth**: Datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel ar draws yr ysgol trwy ddarparu cyfleoedd datblygu i holl staff yr ysgol a sicrhau eglurder rôl i arweinwyr canol ac uwch. | • Rolau a chyfrifoldebau arweinwyr yn eglur a phrosesau rheoli perfformiad effeithiol ar waith<br>• Arweinwyr canol yn chwarae rôl amlycach wrth arwain ac wrth werthuso a gwella.<br>• Llywodraethwyr yn chwarae blaenllaw ym mhrosesau'r ysgol ac yn effeithiol wrth ddiwallu gofynion Llywodraethol.<br>• Llais y disgyblion yn amlwg ac yn gadarn yn newidiadau strategol yr ysgol.<br>• Cyswllt rhwng yr ysgol a'r gymuned yn gryf. |

## Blaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol 2025-25

| Blaenoriaeth | Camau Allweddol | Cefnogaeth |
|---|---|---|
| 1. **Medrau:** Adeiladu ar arferion da a datblygiadau 24-25 i ddatblygu'r ddarpariaeth a chodi safonau llafar Cymraeg a darllen ar draws yr ysgol, gyda ffocws benodol ar sicrhau llythrennedd gweithredol i bob disgybl. | • Cynyddu nifer profiadau llafar Cymraeg iaith Gyntaf ac ail-iaith<br>• Hyfforddiant trochi pellach<br>• Creu portffolio Clwstwr<br>• Adnewyddu dulliau tracio ffoneg a darllen<br>• Datblygu ardaloedd darllen | • Cydweithio Clwstwr Plasmawr<br>• CLIP asesu - tracio darllen a llythrennedd |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr**<br>• Pob dosbarth yn cynyddu darpariaeth llafar yn effeithiol<br>• Dulliau tracio ffoneg a darllen wedi'u hadnewyddu a hyn yn arwain at adnabod anghenion yn gynnar<br>• Portffolio ysgrifennu Cymraeg y clwstwr yn gyflawn | **Cerrig Milltir Mawrth**<br>• Cystrawennau llafar wedi'u mapio o M-B6<br>• Ardaloedd darllen pob dosbarth wedi'u datblygu ac yn ardaloedd deniadol i ddisgyblion<br>• Staff ail iaith wedi cydweithio ag ysgolion eraill i rannu arfer da<br>• Hyfforddiant trochi cynnar pellach | **Cerrig Milltir Gorffennaf**<br>• Bron pob dysgwr yn dangos cynnydd da mewn llafar a darllen |
| 2. **Addysgeg:** Mireinio addysgu a dysgu trwy ddefnydd cyson a strategol o addysgeg effeithiol i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd gorau posib. | • Adolygu polisïau allweddol<br>• Hyfforddiant addysgeg staff: cwestiynu, gwahaniaethu, sgaffaldu<br>• Prosiect Mathemateg 'Parod am Lwyddiant'<br>• Cynyddu profiadau awyr agored<br>• Sicrhau ansawdd cyson darpariaeth barhaus M-B2 | • Hyfforddiant staff Consortiwm<br>• Prosiect Mathemateg Llywodraeth Cymru a Clwstwr |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr**<br>• Polisïau dysgu ac addysgu wedi'u hadolygu'n drwyadl gyda staff er mwyn sicrhau dealltwriaeth dda ac arfer orau.<br>• Staff wedi derbyn hyfforddiant Vygotsky<br>• Pob athro wedi darllen a thrafod adroddiad thematig Estyn 'Addysgeg CiG'.<br>• Addysgeg CPA mathemateg B6 wedi'i dreialu a'i werthuso<br>• Darpariaeth Barhaus wedi'i werthuso | **Cerrig Milltir Mawrth**<br>• Staff wedi derbyn hyfforddiant sgaffaldu a gwahaniaethu<br>• Staff wedi derbyn hyfforddiant dulliau awyr agored a'r ddarpariaeth awyr agored wedi cynyddu<br>• Dulliau Adolygiadau Dysgu y disgyblion ifancaf wedi'u hadolygu er mwyn cynyddu effeithiolrwydd<br>• Darpariaeth barhaus yn fwy cyson yn y dosbarthiadau ifancaf | **Cerrig Milltir Gorffennaf**<br>• Pob aelod staff yn gwahaniaethu'n effeithiol<br>• Bron pob un disgybl y gwneud cynnydd da ym mhob gwers |

| | | |
|---|---|---|
| **3. Asesu:** Adeiladu ar systemau tracio strategol er mwyn sicrhau safonau uchel, adnabod angen yn gynnar ac adnabod camau nesaf i bob disgybl. | • Sefydlu cyfarfodydd cynnydd tymhorol<br>• Adnewyddu system tracio ffoneg a darllen<br>• Prosiect Comparative Judgement | • CLIP asesu a thracio<br>• CLIP asesu |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr**<br>• Cyfarfodydd Cynnydd tymhorol cyntaf wedi'u cynnal ac yn effeithiol wrth adnabod ffordd ymlaen ychwanegol i bron pob un disgybl<br>• Cyfarfodydd CLIP asesu wedi arwain at rannu arfer da<br>• Un aelod staff wedi cydweithio ag ysgolion clwstwr er mwyn datblygu dealltwriaeth rhanedig o gynnydd | **Cerrig Milltir Mawrth**<br>• Addasu systemau tracio i fod yn fwy effeithiol o ganlyniad i rannu arfer da yn y CLIP<br>• Cyfarfodydd Cynnydd yn parhau ac yn effeithiol wrth adnabod angen ac addasu darpariaeth.<br>• Staff yn fwy hyderus, strategol a blaengar wrth adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. | **Cerrig Milltir Gorffennaf**<br>• Bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da o ganlyniad i adnabod anghenion yn gynnar |
| **4. Lles a Chynhwysiant:** Datblygu Dulliau Adferol ymhellach yn strategol ar draws yr ysgol a chyflwyno strategaethau cynhwysol ychwanegol i gyfoethogi darpariaeth sydd yn cefnogi lles a chynhwysiant pawb. | • Hyfforddiant pellach Dulliau Adferol i bawb ar Ymholiad Adferol<br>• Hyfforddiant Dulliau Adferol i ddisgyblion (Cyfoedion)<br>• Prosiect Lleihau Bwlch Tlodi<br>• Adolygiad o bresenoldeb a hybu<br>• Hyfforddiant pellach amrywiaeth<br>• Cynyddu'r cyfleodd i gydweithio â theuluoedd yn gymunedol | • Cwmni WRAP<br>• Prosiect Bwlch Tlodi Llywodraeth Cymru a Clwstwr<br>• Clwstwr Radyr a Plasmawr - presenoldeb |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr**<br>• Staff newydd wedi derbyn hyfforddiant cychwynnol Dulliau Adferol<br>• 2 aelod staff yn ychwanegol wedi derbyn hyfforddiant uwch Dulliau Adferol<br>• Staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar Gylchoedd Adferol<br>• Disgyblion targed presenoldeb wedi'i hadnabod ac yn derbyn cymorth ychwanegol<br>• Awdit Bwlch Tlodi wedi'i gynnal ar y cyd ag ysgolion Clwstwr Plasmawr a CNE<br>• Wedi estyn allan at aelodau'r gymuned a theuluoedd er mwyn cryfhau cysylltiadau ymhellach.<br>• Cynllun ymateb i holiaduron lles SHRN a WSAEMW wedi'i lunio<br>• Hyfforddiant 'Trauma Informed' i bob aelod staff | **Cerrig Milltir Mawrth**<br>• Pob aelod staff wedi derbyn hyfforddiant Ymholiad Adferol<br>• Dulliau targed presenoldeb yn parhau i dderbyn cymorth ychwanegol a hyn yn cynyddu presenoldeb<br>• Cydweithio rhwng yr ysgol a swyddogion presenoldeb yn effeithiol<br>• Cynnydd yn y profiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol a gynigir gan deuluoedd a chymuned yr ysgol<br>• Gwobr Arian Ysgolion Sy'n Parchu Hawliau wedi'i ddilysu<br>• Darpariaeth wedi'i addasu er mwyn addasu i sylwadau disgyblion yn yr holiaduron lles.<br>• Staff yn fwy gwybodus am anghenion trawma ac yn defnyddio strategaethau trawma-gyfeillgar | **Cerrig Milltir Gorffennaf**<br>• Defnydd cyson o Ddulliau Adferol ar draws yr ysgol gan bron pob aelod staff<br>• Bron pob disgybl yn adrodd ac yn arddangos safonau a chynnydd uchel yn eu lles.<br>• Bron pob disgybl yn meddu ar eirfa addas i |